

CGGC
2018

Cynhadledd Genedlaethol
Gofal Cymdeithasol
National Social
Care Conference

NSCC
2018

Cyfleoedd i Noddi ac Arddangos

11 - 13 Medi 2018

Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd



ROYAL WELSH COLLEGE
OF MUSIC & DRAMA
COLEG BRENHINOL
CERDD A DRAMA CYMRU



Cynhadledd Genedlaethol
Gofal Cymdeithasol
National Social
Care Conference



11 – 13 Medi 2018

Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd

Mynediad heb ei ail at y gweithlu gofal a chymorth

Eleni, am y tro cyntaf erioed, mae Sefydliad Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru) a Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnig profiad cynhadledd unigryw. Rydym yn datblygu digwyddiad ar y cyd a fydd yn gyfle arddangos a rhwydweithio rhagorol ar gyfer y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bydd y digwyddiad yn cynnwys rhywbeth ar gyfer pob aelod o'r gweithlu gofal, o staff rheng flaen sy'n ymwneud â darparu gofal i blant, oedolion a'u teuluoedd, i reolwyr, ac uwch weithwyr sy'n gwneud penderfyniadau yn y llywodraeth leol a chenedlaethol.

Cynhelir cynhadledd 2018 yn adeilad eiconig Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, yng nghanol dinas Caerdydd, De Cymru. Bydd y lleoliad unigryw hwn yn rhoi cyfle heb ei ail i'n noddwyr a'n harddangoswyr gymryd rhan yn y ddadl ynglŷn â dyfodol gofal cymdeithasol yng Nghymru, ac yn hyrwyddo gwasanaethau ar draws y gweithlu.

Mae cynadleddau blaenorol wedi denu mwy na 300 o gyfranogwyr lefel uchel, gan gynnwys cyfarwyddwyr ac uwch reolwyr gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, Aelodau Cynulliad Cymru, gweision sifil Llywodraeth Cymru, aelodau cyngor etholedig, ac uwch reolwyr o'r sectorau gwirfoddol, annibynnol, iechyd, addysg a thai.

Am y tro cyntaf erioed, bydd ein cynhadledd ar gyfer 2018 yn cynnwys cynrychiolwyr ehangach o bob rhan o'r sector gofal, a disgwylir i 600 o aelodau staff fod yno, gan gynnwys pobl sy'n gweithio ym maes gwasanaethau cymdeithasol, gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru, o ymarferwyr rheng flaen i uwch weithwyr sy'n gwneud penderfyniadau, yn ogystal â myfyrwyr gwaith a gofal cymdeithasol.



Richard McCann (Siaradwr Ysbyrdoledig)
Siaradwr Ysgogol y Gynhadledd



Fiona Phillips (Newyddiadurwr, Darlledwr,
a Chyflwynydd Teledu)
Prif Siaradwr y Gynhadledd

Cyfle unigryw i ddenu sylw at eich busnes

Os ydych yn cyflenwi gwasanaethau neu nwyddau cysylltiedig i'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, neu rydych am wneud hynny, mae Cynhadledd Genedlaethol Gofal Cymdeithasol 2018 yn cynnig cyfle unigryw i godi eich proffil. Bydd cyfnodau yn cael eu neilltuo i arddangoswyr gyfathrebu â'ch cynulleidfaoedd allweddol yn ystod yr egwylion cinio, te a choffi, sy'n golygu y bydd gennych ddigon o gyfle i hysbysu ac ennyn diddordeb cynrychiolwyr yn eich cynhyrchion a gwasanaethau, ac yn caniatáu i chi gasglu gwybodaeth hanfodol ar gyfer y dyfodol.

Os ydych yn cynnal standin arddangos yn y digwyddiad hwn, bydd gennych gyfle i rannu eich gwasanaethau â'r byd, cyfarfod â'r cynrychiolwyr sy'n bresennol, a magu cysylltiadau busnes newydd. Bydd eich pecyn arddangos yn cynnwys standin/bwrdd (mae dau faint ar gael), gyda phŵer, WiFi (cyfyngedig), bwrdd a chadeiriau, copïau o'ch taflenni gwybodaeth wedi'u cynnwys ym magiau'r cynrychiolwyr, a dau aelod standin a fydd yn cael lle i fynychu'r gynhadledd / sesiynau Parth Dysgu.

Bydd amrywiaeth o ddigwyddiadau cymdeithasol, gan gynnwys derbynfa groeso a gŵyl llesiant yn y Coleg Brenhinol Cerdd a Drama hefyd yn cynnig fforwm delfrydol i rwydweithio â chynrychiolwyr, arddangoswyr a noddwyr eraill.

Yn dilyn llwyddiant Gŵyl Llesiant y llynedd, byddwn yn ehangu nifer y digwyddiadau a gweithgareddau llesiant a gynigir. Bydd yr Ŵyl Llesiant yn dechrau ar ddiwedd y prynhawn ac yn rhedeg tan 7.00pm ddydd Mawrth 11 Medi a bydd Derbynfa'r Gynhadledd yn dilyn gyda diodydd a chanapés.

Nid yw llesiant ond yn ymwneud â pheidio â chael afiechyd neu salwch, mae'n gyfuniad cymhleth o ffactorau iechyd corfforol, meddyliol, emosiynol ac iechyd cymdeithasol unigolyn. Mae cysylltiad cryf rhyngddo â hapusrwydd a boddhad bywyd.

Bydd yr ŵyl yn cynnwys gweithgareddau a pherfformiadau gan nifer o grwpiau drama a cherddoriaeth leol, yn ogystal â phrosiectau llesiant cynhwysol eraill.

Yn y gorffennol, cawsom berfformiadau gan Gôr Llais Alastair, sy'n gôr Dementia, ynghyd â gweithgareddau megis Tai chi, Celf ar gyfer y Galon, Boccia a Thyliniadau.

Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r holl gyfleoedd hyn wedi'i chynnwys yn y pecyn hwn.



Trefnwyr y Gynhadledd

Trefnwyd cynhadledd eleni ar y cyd gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru - sy'n cynrychioli'r arweinwyr a'r gweithlu ar draws y sector gofal cymdeithasol.



Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru

Rôl ADSS Cymru, fel y sefydliad arweinyddiaeth cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, yw cynrychioli llais cyfunol Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Penaethiaid Gwasanaethau i Oedolion, Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Busnes, ynghyd â gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi plant ac oedolion sy'n agored i niwed, eu teuluoedd a chymunedau, ar amrediad o faterion cenedlaethol a rhanbarthol cysylltiedig â pholisau, arferion ac adnoddau gofal cymdeithasol. Ni yw'r unig gorff cenedlaethol sy'n gallu mynegi barn y gweithwyr proffesiynol hynny sy'n arwain ein gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Rydym yn ymroddedig i ddefnyddio'r cyfoeth o brofiad ac arbenigedd sydd gan ein haelodau, gan weithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill, er mwyn dylanwadu ar benderfyniadau pwysig ynghylch gofal cymdeithasol er budd y bobl rydym yn rhoi cymorth iddynt a'r bobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau gofal.

www.adsscymru.org.uk



Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn dod â rheoliadau'r gweithlu gofal cymdeithasol, datblygu'r gweithlu, a gwella gwasanaeth at ei gilydd mewn un sefydliad. Rydym yn cyflawni swyddogaeth ddylanwadol wrth lunio blaenoriaethau ymchwil a magu cysylltiadau cryf â rhanddeiliaid i wella cymorth a gofal ledled Cymru.

Trwy ddatblygu ac adeiladu ar sgiliau'r gweithlu, byddwn yn helpu plant, oedolion a phobl hŷn sy'n derbyn gofal a chymorth i wella eu hiechyd a'u lles a chyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt. Rydym am wella ansawdd a statws gofal cymdeithasol a chyflogaeth y blynyddoedd cynnar drwy reoleiddio a hyfforddiant i sicrhau swyddi gwell, sy'n nes at adref, ar gyfer pobl ledled Cymru.

www.gofalcymdeithasol.cymru

Cyfleoedd i Noddi

Mae ADSS Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru wedi creu cyfres o becynnau nawdd. Mae'r pecynnau hyn i gyd yn cynnig cyfleoedd marchnata ardderchog ar gyfer y noddwr, megis noddi digwyddiad penodol, hysbysebu yn nhaflenni gwybodaeth y digwyddiad, a nwyddau hyrwyddol.

Bydd yr amrywiaeth hyn o ddewisiadau yn sicrhau bod gennych bresenoldeb proffil uchel yn y digwyddiad mawreddog hwn. Fodd bynnag, efallai bod gennych ddulliau marchnata eraill yr ydych wedi'u defnyddio yn y gorffennol yr hoffech eu trafod. Hoffwn drafod eich awgrymiadau.

Pecynnau Nawdd


Mae'r pecynnau hyn yn cynnig cyfle i fusnesau sydd am greu argraff fawr ar ein cynrychiolwyr a hyrwyddo eu hunain i gynulleidfa ddylanwadol.

Prif Noddwr y Gynhadledd	£12,000
Cinio Cynhadledd a Derbynfa Diodydd Cyn Cinio	£10,000
'Gŵyl Llesiant' a Derbynfa Cyn y Gynhadledd	£5,000
Bag Cynrychiolwyr	£5,000
Cof Bach y Gynhadledd	£4,000
Padau Ysgrifennu'r Gynhadledd	£3,000
Cortyn y Gynhadledd	£3,000
Potel Ddŵr y Gynhadledd	£3,000
Rhestr Bost y Gynhadledd	Cysylltwch i gael rhagor o wybodaeth
Tafleini Gwybodaeth wedi'u hargraffu – Pamffled i Gynrychiolwyr	Cysylltwch i gael rhagor o wybodaeth
Cyflwyniadau Hyrwyddo Digidol - Cof Bach	Cysylltwch i gael rhagor o wybodaeth
Hysbysebu	Cysylltwch i gael rhagor o wybodaeth

Byddwn yn cynnig pecynnau eleni i noddwr y gynhadledd flaenorol yn gyntaf, fel arall bydd y pecynnau hyn ar gael ar sail 'y cyntaf i'r felin'. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag ADSS Cymru.

Rhif Ffôn 01443 742641

E-bost: Carla.green@adss.cymru.org.uk neu Phil.tyrrell@adsscymru.org.uk



Prif Noddwr y Gynhadledd

£12,000 ynghyd â TAW

Mae'r pecyn hwn yn gwarantu presenoldeb proffil uchel yn y gynhadledd, gan gynnwys y cyfle i gyfarch holl gynrychiolwyr y gynhadledd cyn y prif siaradwr, yn ogystal â gweithdy i hyrwyddo'r gwasanaethau yr ydych yn eu cynnig. Cewch gyfuno amrywiaeth o gyfleoedd marchnata ar brif safle'r arddangosfa drwy gydol yr holl gynhadledd.

Mae'r pecyn yn cynnwys:

- Defnydd helaeth o'ch logo corfforaethol ar holl daflenni gwybodaeth y gynhadledd, gan gynnwys llyfryn, sleidiau a deunydd cyhoeddusrwydd y gynhadledd.
- Cydnabyddiaeth gan y Cadeirydd yn ystod y cyflwyniad agoriadol ac wrth gloi.
- Cyfle i gyfarch cynrychiolwyr prif neuadd y gynhadledd
- Cyfle i ddarparu sesiwn gweithdy
- Prif leoliad ar stondin arddangos y prif noddwr (naill ai stondin 1 neu 2)
- Logo, dolen we, a manylion eich cwmni ar wefan y gynhadledd
- Pedwar tocyn mynediad i gynrychiolwyr ac arddangoswyr
- Pedwar gwahoddiad di-dâl i ginio'r gynhadledd nos Fercher
- Cynnig cyntaf ar yr un pecyn y flwyddyn olynol
- Lluniaeth a chinio

Noddwr Cinio Cynhadledd a Derbyniad Diodydd Cyn Cinio

£10,000 ynghyd â TAW

Mae cinio'r gynhadledd yn gyfle cyffrous i rwydweithio â chynrychiolwyr a chreu argraff barhaol ar noson gofiadwy. Cynhelir y cinio yn Neuadd y Ddinas, canolfan ddinesig Caerdydd, ddydd Mercher 12 Medi am 7.15pm ac mae croeso i'r holl gynrychiolwyr ac arddangoswyr fynychu.

Mae'r pecyn yn cynnwys:

- Cyfle unigryw i gyfarch gwesteion y cinio
- Bwrdd y noddwyr wedi'i neilltuo ar gyfer hyd at wyth o westeion cinio di-dâl
- Cydnabyddiaeth gan y Cadeirydd yn ystod y cyflwyniad agoriadol ac wrth gloi
- Prif leoliad ar stondin arddangos y prif noddwr (naill ai stondin 1 neu 2)
- Logo ar lyfryn y gynhadledd
- Logo, dolen we, a manylion eich cwmni ar wefan y gynhadledd
- Logo corfforaethol ar y gwahoddiadau cinio
- Dau docyn mynediad i gynrychiolwyr ac arddangoswyr
- Cynnig cyntaf ar yr un pecyn y flwyddyn olynol
- Lluniaeth a chinio

Noddwr Gŵyl Llesiant a Derbyniad Diodydd Cyn Cinio

£5,000 ynghyd â TAW

Mae'r digwyddiad hwn yn agored i'r holl gynrychiolwyr ac arddangoswyr ac fe'i cynhelir yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, yng Nghaerdydd, ddydd Mawrth 11 Medi 2018 o 5.00pm ymlaen.

Mae'r digwyddiad cymdeithasol hwn yn gyfle gwych i rwydweithio â chynrychiolwyr mewn amgylchedd ymlaciedig.

Mae'r pecyn yn cynnwys:

- Cyfle i ddangos deunydd yn ystod y derbyniad diodydd
- Cydnabyddiaeth gan y Cadeirydd yn ystod y cyflwyniad agoriadol ac wrth gloi
- Prif leoliad ar stondin arddangos y prif noddwr (3)
- Logo ar lyfryn y gynhadledd
- Logo, dolen we, a manylion eich cwmni ar wefan y gynhadledd
- Dau docyn mynediad i gynrychiolwyr ac arddangoswyr
- Dau wahoddiad di-dâl i ginio nos Fercher
- Cynnig cyntaf ar yr un pecyn y flwyddyn olynol
- Lluniaeth a chinio

Noddwr y Bag i Gynrychiolwyr

£5,000 ynghyd â TAW

Rhoddir bagiau cynrychiolwyr i bob un o gynrychiolwyr y gynhadledd wrth iddynt gyrraedd er mwyn cadw holl ddogfennau'r gynhadledd. Bydd eich logo yn cael ei dangos yn amlwg ar ochr y bag, sy'n gyfle gwych i bawb ei weld. Mae bagiau'r cynrychiolwyr yn hysbysu'ch logaidd ac mae cynrychiolwyr yn parhau i'w defnyddio drwy gydol y flwyddyn, sy'n rhoi ran brandio a marchnata.

Mae'r pecyn yn cynnwys:

- Prif leoliad ar stondin arddangos y prif noddwr (4)
- Logo ar lyfryn y gynhadledd
- Logo, dolen we, a manylion eich cwmni ar wefan y gynhadledd
- Dau docyn mynediad i gynrychiolwyr ac arddangoswyr
- Dau wahoddiad di-dâl i ginio nos Fercher
- Cynnig cyntaf ar yr un pecyn y flwyddyn olynol
- Lluniaeth a chinio

GWERTHWYD

Cof Bach y Gynhadledd

£4,000 ynghyd â TAW

Rhoddir cof bach i bob cynrychiolydd sy'n cynnwys llyfryn y gynhadledd, y cyflwyniadau a gynigir, a hyrwyddiadau eich cwmni. Byddai eich logo ar y cof bach maint cerdyn credyd hefyd, ynghyd â brandio'r gynhadledd.

Mae'r pecyn yn cynnwys :

- Logo corfforaethol ar gof bach y gynhadledd
- Deunydd hyrwyddo'r cwmni wedi'i lanlwytho ar y cof bach ymlaen llaw
- Prif leoliad gyda bwrdd arddangos y noddwr (5)
- Logo ar lyfryn y gynhadledd
- Logo, dolen we, a manylion eich cwmni ar wefan y gynhadledd
- Dau docyn mynediad i gynrychiolwyr ac arddangoswyr
- Dau wahoddiad di-dâl i ginio nos Fercher
- Cynnig cyntaf ar yr un pecyn y flwyddyn olynol
- Lluniaeth a chinio

Pad Ysgrifennu'r Gynhadledd

£3,000 ynghyd â TAW

Rhoddir pad ysgrifennu i bob cynrychiolydd er mwyn gwneud nodiadau drwy gydol y gynhadledd. Bydd eich logo yn cael ei arddangos yn amlwg ar y pad, sy'n gyfle marchnata gwych.

Mae'r pecyn yn cynnwys :

- Prif leoliad gyda bwrdd arddangos y noddwr (6)
- Logo ar lyfryn y gynhadledd
- Logo, dolen we, a manylion eich cwmni ar wefan y gynhadledd
- Dau docyn mynediad i gynrychiolwyr ac arddangoswyr
- Dau wahoddiad di-dâl i ginio nos Fercher
- Cynnig cyntaf ar yr un pecyn y flwyddyn olynol

Cortynnau'r Gynhadledd

£3,000 ynghyd â TAW

Bydd pob cynrychiolydd yn derbyn cortyn pan fyddant yn casglu ei fathodyn wrth gofrestru. Bydd y cortyn yn cynnwys brand y noddwr yn unig, sy'n golygu cyfle brandio proffil uchel.

Mae'r pecyn yn cynnwys :

- Prif leoliad gyda bwrdd arddangos noddwr (7)
- Logo ar lyfryn y gynhadledd
- Logo, dolen we, a manylion eich cwmni ar wefan y gynhadledd
- Dau docyn mynediad i gynrychiolwyr ac arddangoswyr
- Dau wahoddiad di-dâl i ginio nos Fercher
- Cynnig cyntaf ar yr un pecyn y flwyddyn olynol

Potel Ddŵr y Gynhadledd

£3,000 ynghyd â TAW

Rhoddir potel ddŵr y gynhadledd i bob cynrychiolydd pan fyddant yn casglu ei fathodyn wrth gofrestru. Bydd y botel hon yn cynnwys brand y noddwr a'r gynhadledd, sy'n golygu cyfle brandio proffil uchel.

Mae'r pecyn yn cynnwys:

- Prif leoliad gyda bwrdd arddangos noddwr (8)
- Logo ar lyfryn y gynhadledd
- Logo, dolen we, a manylion eich cwmni ar wefan y gynhadledd
- Dau docyn mynediad i gynrychiolwyr ac arddangoswyr
- Dau wahoddiad di-dâl i ginio nos Fercher
- Cynnig cyntaf ar yr un pecyn y flwyddyn olynol
- Lluniaeth a chinio

Cyfleoedd Arddangoswyr

Dyma ffordd ragorol, a chost-ffeithiol yn y pen draw, o hyrwyddo eich gwasanaethau a nwyddau i unigolion allweddol y sector gofal cymdeithasol. Ar ôl gwrandao ar sylwadau a syniadau arddangoswyr mewn cynadleddau blaenorol, rydym yn cyflwyno nifer o syniadau newydd i gynyddu nifer y cynrychiolwyr sy'n dod i stondinau'r arddangosfa.

Eleni bydd yr arddangosfa'n agored i gynrychiolwyr am 8.30am ddydd Mercher, 12 Medi, a dydd Iau, 13 Medi felly bydd gan gynrychiolwyr awr i bori drwy'r stondinau arddangos cyn i'r gynhadledd ddechrau'n swyddogol am 9.30am bob dydd.

Bydd egwylliau drwy gydol y dydd, yn ogystal ag awr a hanner i ginio ar y dydd Mercher, ac yn ystod y cyfnod hwn bydd gennych fynediad uniongyrchol at y 600 o gynrychiolwr .

Yn ogystal â hyn, bydd gŵyl llesiant, gyda diodydd a chanapés, yn cael ei chynnal ar gyfer cynrychiolwyr yng nghyntedd y Coleg Brenhinol Cerdd a Drama ar nos Fawrth, 11 Medi.

Cynhelir cinio'r Gynhadledd a'r dderbynfa cyn cinio yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd, ar y nos Fercher, ac mae croeso i arddangoswyr ddod i'r cinio hwn.

Mae'r holl becynnau nawdd yn cynnwys tocynnau di-dâl ar gyfer Cinio'r Gynhadledd. Gellir prynu tocynnau ychwanegol ar gyfer noddwyr, ac mae croeso i arddangoswyr brynu tocynnau ar gyfer y digwyddiad hefyd. Mae'r tocynnau yn £55.00 + TAW i bob unigolyn, gan gynnwys cinio tri chwrs ac adloniant byw.

Cynigir tocynnau mynediad ychwanegol i arddangoswyr am £160 + taw

Cynhelir y digwyddiad i arddangoswyr ar 11 Medi yn ystod y prynhawn.

Pecyn Aur

Bwrdd 2m x 1.5m (stondinau rhif: 9 –

13) Mae'r pecyn hwn yn cynnwys:

- Lleoliad yn y prif gyntedd
- Bwrdd â gorchudd du, dwy gadair a phwyntiau trydanol
- Dau docyn mynediad i gynrychiolwyr ac arddangoswyr
- WiFi y Gynhadledd
- Pamffled un ddalen ym mag y cynrychiolwyr
- Mynediad uniongyrchol at holl gynrychiolwyr y gynhadledd yn ystod yr egwyllion lluniaeth a chinio
- Logo, dolen we, a manylion eich cwmni ar wefan y gynhadledd
- Lluniaeth a chinio

Costau'r pecyn aur:

Sector Preifat £1,300 + taw

Sector Cyhoeddus a Gwirfoddol £950 + taw

Pecyn Arian

Cynllun Cragen 2m x 3m (stondinau rhif:36 – 54)

Mae'r pecyn yn cynnwys :

- Lleoliad yn yr Oriel neu Theatr Biwt (a fydd yn cynnwys y man arlwyo)
- Cynllun ar ffurf cragen, bwrdd, dwy gadair, goleuadau arddangos, baner enw a phwyntiau trydanol
- Dau docyn mynediad i gynrychiolwyr ac arddangoswyr
- Gwasanaeth WiFi y Gynhadledd
- Pamffled un ddalen ym mag y cynrychiolwyr
- Mynediad uniongyrchol at holl gynrychiolwyr y gynhadledd yn ystod yr egwyllion lluniaeth a chinio
- Logo, dolen we, a manylion eich cwmni ar wefan y gynhadledd
- Lluniaeth a chinio

Costau'r pecyn arian:

Sector Preifat £1,100 + taw

Sector Cyhoeddus a Gwirfoddol £850 + taw

Pecyn Efydd

Bwrdd 2m x 1.5m (rhifau stodin: 14 – 35)

Mae'r pecyn yn cynnwys :

- Lleoliad yn yr Oriel
- Bwrdd â gorchudd bwrdd du, dwy gadair, a phwyntiau trydanol
- Dau docyn mynediad i gynrychiolwyr ac arddangoswyr
- Gwasanaeth WiFi y gynhadledd
- Pamffled un ddalen ym mag y cynrychiolwyr
- Mynediad uniongyrchol at holl gynrychiolwyr y gynhadledd yn ystod yr egwyllion lluniaeth a chinio
- Logo, dolen we, a manylion eich cwmni ar wefan y gynhadledd
- Lluniaeth a chinio

Costau'r pecyn efydd:

Sector Preifat	£750 + tax
Sector Preifat a Gwirfoddol	£550 + tax

Taflenni Gwybodaeth - pamffled i gynrychiolwyr

Cysylltwch am ragor o wybodaeth

Sicrhewch y bydd taflenni gwybodaeth eich sefydliad yn cyrraedd pob cynrychiolydd gyda phamffled ym mag pob cynrychiolydd. Mae'r cyfleoedd cost isel hyn yn wych ar gyfer codi eich proffil corfforaethol, yn enwedig o ran busnesau bach a chanolig.

- Pamffled un ddalen ar gyfer y cynrychiolwyr
- Llyfryn i gynrychiolwyr (12 tudalen ar y mwyaf)

Rhagor o wybodaeth

Bydd llawlyfr arddangoswyr a noddwyr yn cael ei anfon i'r holl arddangoswyr cofrestredig bedair wythnos cyn y gynhadledd gyda'r holl wybodaeth o ran y trefniadau.

Mae TAW yn berthnasol i'r holl brisiau a restrir.

Os ydych am gael rhagor o wybodaeth, neu os hoffech drafod pecyn a fydd yn bodloni eich gofynion ariannol, cysylltwch â Carla Green neu Phil Tyrrell:

E-bost: Carla.green@adsscymru.org.uk

E-bost: Phil.tyrrell@adsscymru.org.uk

Rhif Ffôn: 01443 742641

Byddwn yn ystyried ceisiadau i drafod costau'r pecynnau nawdd.

Nid yw derbyn nawdd yn golygu ein bod yn ategu nac yn cefnogi cynnyrch neu achos y noddwr.

Cynllun llawr yr arddangosfa

